



# Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru

---



## Swyddog TG (Dadansoddwr Trawsnewid Digidol a TG) Pecyn Recriwtio

# Croeso gan y Pennaeth Gwasanaeth



DAVID COOIL  
PENNAETH GWASANAETH ACGCC

Yn yr ACGCC rydym yn helpu i greu rhwydwaith ffyrdd sy'n cysylltu pobl a lleoedd mewn modd mwy diogel, a mwy dibynadwy.

Rydym yn gweithio ar brosiectau ar draws Gogledd a Chanolbarth Cymru sy'n mynd i'r afael â rhai o heriau mwyaf tyngedfennol y wlad. O seilwaith cymhleth, cynyddu anghenion trafnidiaeth, a newid yn yr hinsawdd – rydyn ni'n cyfuno arloesi, arbenigedd a thechnoleg i wneud Gogledd a Chanolbarth Cymru yn lle gwell i fyw, gweithio ac ymweld ag ef.

Gallwch gyfrannu at waith fydd yn cael effaith gadarnhaol barhaol ar eich cymuned leol gyda sefydliad lle mae amrywiaeth, tegwch a chynhwysiant yn werthoedd a rennir. Rydym wedi ymrwymo i feithrin amgylchedd gwaith sy'n gefnogol, yn barchus ac yn gynhwysol, gyda chyfleoedd gwych ar gyfer twf.

Beth am roi cynnig arni? Byddem yn hapus iawn i ystyried eich cais i ymuno â'n tîm medrus, brwdfrydig a chyfeillgar.

## Ble rydym wedi'n lleoli

**Dros 250 o weithwyr ar draws Gogledd a Chanolbarth Cymru.**

- Aberaeron, Ceredigion
- Bangor, Gwynedd
- Conwy
- Dolgellau, Gwynedd
- Helygain, Wrecsam
- Llandrindod, Powys
- Drenewydd, Powys





# Teitl y swydd: Swyddog TG (Dadansoddwr Trawsnewid Digidol a TG)

**Cyflog:** PS1 (SCP 29-31) £32,910 -  
£34,728

**Cyfnod:** Parhaol

**Lleoliad:** **Gweithio Hybrid**

Neu un o'r lleoliadau isod

Conwy, Parc Menai, Llandrindod Wells,  
Helygain

Ydych chi'n mwynhau her ac yn hoffi  
amrywiaeth? Os felly, efallai mai'r swydd  
hon yw'r pet hi chi.

Rydyn yn chwylio am Ddadansoddwr  
trawsnewid TG a Digidol i ymuno â thim  
cyffrous sy'n tyfu

**Dyddiad cau:** 27/04/2023

**Ffurflenni cais a manylion pellach ar  
gael trwy wefan Cyngor Gwynedd  
[www.gwynedd.llyw.cymru](http://www.gwynedd.llyw.cymru) neu drwy  
ffonio 01286 679076.**

**Ymgeisiwch**

# Pwrpas y swydd

Diben y swydd yw gwella effeithlonrwydd parhaus yr holl wasanaethau trwy ddadansoddi, dylunio a gweithredu datrysiadau technolegol, gan gynnwys rhai ffisegol a rhai a gedwir mewn cwmwl, i sicrhau y darperir rhwydwaith cefnffyrdd dibynadwy yng ngogledd a chanolbarth Cymru ar ran Llywodraeth Cymru (LIC).

Datblygu a gweithredu systemau dadansoddi busnes arloesol a chreadigol o fewn yr Asiant drwy ddefnyddio arbenigedd i gefnogi rhaglenni datblygu busnes llwyddiannus, gan ddefnyddio gwahanol ddisgyblaethau arbenigol.



# Cyfrifoldebau

- Cyfrifol am ddatblygu a chynnal systemau rheoli data'r Asiant, gan gynnwys systemau rheoli cyllid a TG gweithredol, a chaffael gwasanaethau ac offer cysylltiedig ble fo'n berthnasol.
- Cynhyrchu adroddiadau cysylltiedig drwy archwilio gwybodaeth yn gywir drwy ddefnyddio teclynnau dadansoddi data megis PowerBI, a chyflwyno'r wybodaeth i uwch reolwyr yr Asiant i'w cynorthwyo â'r broses o wneud penderfyniadau.
- Dylunio a gweithredu systemau TG, offer a'r data a gedwir arnynt.
- Diogelwch data masnachol sensitif ac offer TG ffisegol.
- Rheoli timau o staff wrth weithredu meddalwedd.
- Rheoli contractwyr, ymgynghorwyr a chyflenwyr allanol.
- Arwain timau dylunio wrth ddatblygu datrysiadau TG.
- Cyflawni prosiectau TG o fewn amserlenni a chyllidebau cytunedig.
- Cyfrifoldeb am offer TG arbenigol a thrwyddedu'r feddalwedd.
- Datblygu a chynnal unrhyw systemau rheoli cyfredol neu yn y dyfodol.
- Cyfrifol am reoli prosiectau systemau, gan gynnwys cynhyrchu ac adolygu'r manylebau technegol.
- Cyfrifol am greu polisiau a gweithdrefnau am systemau newydd a'u gweithrediad, a'u rhoi ar waith.
- Creu polisiau a gweithdrefnau ar gyfer datrysiadau a weithredir, a'u rhoi ar waith
- Hyfforddi staff ACGCC a defnyddwyr eraill i ddefnyddio systemau TG a systemau rheoli data, gan gynnwys mewn amgylchedd ystafell ddosbarth.



# Manylion Person

**Dylech gyfeirio at y meini prawf penodol i'r swydd hon yn eich ffurflen gais.**

## **Meini prawf penodol i'r swydd**

### **Hanfodol**

Yr ydym yn chwilio am berson sydd ar gallu i ddefnyddio ystod o feddalwedd yn gyfforddus ynghyd â systemau a rhyngwynebau eraill. Bydd angen i chi ddeall anghenion y busnes er mwyn darparu'r dyluniaeth dechnoleg briodol â'r datrysiad digidol gorau, y gallu i ymdrin â sefyllfaoedd a allai fod yn gynhennus mewn modd proffesiynol ac egluro problemau a datrysiadau i staff nad ydynt yn annhechnegol. Rydym yn chwilio am berson sydd a'r gallu i ymdrin â phroblemau mewn modd resymegol, gweithio fel rhan o dîm neu yn unigol, a'r awydd i gyrraedd targedau. Mae'r angerdd am ddysgu gyda meddwl creadigol ac arloesol yn hanfodol, yn ogystal â sgiliau rhyngpersonol a threfnu rhagorol. Mae rhoi sylw i fanylion a pharodrwydd i ehangu eich gwybodaeth TGCh i ddiwallu anghenion busnes hefyd yn bwysig. Efallai y bydd angen hyblygrwydd i deithio i swyddfeydd neu safleoedd eraill.

## **Cymwysterau a hyfforddiant perthnasol**

### **Hanfodol**

Rydym yn chwilio am berson sydd a HNC mewn pwnc perthnasol, trwydded yrru lawn a glân ynghyd â tystiolaeth o ddysgu a datblygu proffesiynol parhaus.

## **Profiad perthnasol**

### **Hanfodol**

Rydym yn chwilio am rywun sydd ag o leiaf 3 blynedd o brofiad mewn amgylchedd TGCh proffesiynol a/neu drawsnewid digidol. Dylai fod gennych brofiad gyda chysyniadau a methodolegau rheoli newid, dylunio a ffurfweddu caledwedd, meddalwedd, a systemau, yn ogystal â chynnal a chefnogi systemau a chymwysiadau busnes. Mae profiad gyda systemau rheoli ar y safle neu yn y cwmwl, SQL, deallusrwydd busnes, dadansoddeg, a digideiddio gwybodaeth hefyd yn werthfawr. Dylai fod gennych hanes o hyrwyddo technoleg ddigidol, ysgogi diwylliant a meddylfryd digidol, gwella profiad cwsmeriaid trwy dechnoleg a'r gallu i foderneiddio gweithgareddau a gweithrediadau. Mae profiad o reoli staff a chontractwyr, rheoli TGCh a phrosiectau casglu data, a meithrin perthnasoedd dibynadwy gyda rhanddeiliaid yn bwysig.

## **Sgiliau a gwybodaeth arbenigol**

### **Hanfodol**

Rydym yn chwilio am berson sydd ag angerdd am ddiogelwch data gyda'r gallu i ddelio â blaenoriaethau gwaith. Mae'r gallu i weithio o dan bwysau ac o fewn terfynau tynn yn pwysig iawn ynghyd â'ch sgiliau cyflwyno a gallwch gyfathrebu'n effeithiol â chynulleidfaoedd technegol ac annhechnegol. Mae gennych sgiliau dadansoddi, beirniadu a chreadigol rhagorol, sy'n eich galluogi i ddylunio a defnyddio systemau'n effeithiol. Mae gennych sgiliau rhyngbersonol rhagorol sy'n meithrin deialog agored a chydweithio. Rydych yn wybodus am brotocolau iechyd a diogelwch ac mae gennych brofiad o hyfforddi staff i ddefnyddio offer, meddalwedd neu systemau.

## **Gofynion ieithyddol**

### **Hanfodol**

Mae'r gallu i siarad Saesneg yn hanfodol ar gyfer y rôl hon.

# **Gweithio i Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru**

Mae ACGCC yn lle cyffrous i weithio. Mae gennym bolisiau blaengar a rydym wedi ymrwmo i hyfforddi a






- 31 dyddiau o wyliau blynyddol y flwyddyn.
- 8.5 diwrnod o wyliau cyhoeddus a statudol.
- Gweithio'n hybrid o leiaf 2 ddiwrnod yn y swyddfa.
- Oriau gweithio hyblyg.




- Cyflog cynyddol.
- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol Ceir rhagor o wybodaeth ar wefan [Cronfa Bensiwn Gwynedd](#).



- Cyfle i weithio mewn lleoliadau prydfarth ar draws Gogledd a Chanolbarth Cymru gan gynnwys 1 parc cenedlaethol, 50 gwarchodfa natur a 1,680 milltir o arfordir trawiadol



- Cynlluniau cymorth i brynu car ac i feicio i'r gwaith  
Arbediadau siopa bwyd, gwyliau, mynd allan i fwyta, DIY, offer trydanol, yswiriant, moduro, a llawer mwy!



- Ystod eang o gyfleoedd hyfforddi a datblygu mewnol ac allanol.
- Diwrnod yr wythnos i gwblhau gradd prifysgol.
- Cyfraniad tuag at aelodaeth o gyrrff proffesiynol sy'n berthnasol i'r gwaith



- Gwasanaeth Cwnsela MEDRA - gwasanaeth cwnsela cyfrinachol am ddim i staff.
- Absenoldeb hael ar gyfer mamolaeth, tadolaeth a mabwysiadu.